Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

**HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 12FED MEDI 2023 AM 5.30PM.**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 12 MEDI 2023 AM 5.30PM.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, C. Bishop, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, B. Miles, T. Parry (Cadeirydd), J. Roberts, J. Simmonds a J Winslade.

Aelodau Cabinet: Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau), E. Forehead (Gofal Cymdeithasol), S. Morgan (Arweinydd) a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd)

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Gwasanaethau i Blant), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), C. Howells (Cydlynydd Prosiect), P. O'Neil (Uwch Reolwr Gwasanaethau Ieuenctid), M. Jacques (Swyddog Craffu) a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn mynychu:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn mynychu:

Mrs P. Ireland (Undeb Addysg Cenedlaethol).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Broughton-Pettit, A. Farina-Childs, S. Skivens, K. Woodland a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili). | Ddim yn berthnasol |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 4. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Ar ôl ystyried yr adroddiad ac yn amodol ar ychwanegu Eitem Wybodaeth Adroddiad Monitro Cyllideb 2023/24 (Mis 3) i'r brif agenda ar 17 Hydref 2023, cynigiwyd | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 yn ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.<br><br>PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor. | |
| 5. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 6. | Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 – Cynnig ar gyfer cau Ysgol Fabanod Cwm Glas. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn:<br><br>1. Nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo’r argymhelliad i’r Cabinet fynd ymlaen i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Fabanod Cwm Glas o fis Gorffennaf 2024. | 16 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 yn ymatal |
| 7. | Diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu i leihau pobl ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a materion presennol o bwys. | Rhoddodd y Pwyllgor Craffu ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad. | Dim angen pleidlais. |

**Dosbarthu:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 21 Medi 2023.